# Strategaeth trwyddedu tynnu dŵr Teifi a Gogledd Ceredigion

Mai 2014

Strategaeth drwyddedu ar gyfer rheoli adnoddau dŵr mewn modd cynaliadwy



Ar 1 Ebrill cyfunodd Cyfoeth Naturiol Cymru gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru.

Ein diben yw sicrhau y bydd adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

Gweithiwn dros gymunedau Cymru i amddiffyn pobl a'u cartrefi, cymaint â phosibl, rhag digwyddiadau amgylcheddol megis llifogydd a llygredd.

Darparwn gyfleoedd iddynt ddysgu, defnyddio a chael budd o adnoddau naturiol Cymru.

Gweithiwn dros economi Cymru a galluogwn ddefnydd cynaliadwy ar adnoddau naturiol er mwyn cynnal swyddi a menter.

Cynorthwywn fusnesau a datblygwyr i ddeall ac ystyried cyfyngiadau amgylcheddol wrth iddynt wneud penderfyniadau pwysig.

Gweithiwn i gynnal a gwella ansawdd yr amgylchedd ar gyfer pawb.

Gweithiwn tuag at wneud yr amgylchedd a'r adnoddau naturiol yn fwy galluog i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd a phwysau eraill.

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)


ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru. Cedwir pob hawl.

Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon o gael caniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru


## Ardal SRhTTD Teifi a Gogledd Ceredigion

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales




**Eglurhad**

- Ardal SRhTTD Teifi a Gogledd Ceredigion
- Afonydd SRhTDD Teifi a Gogledd Ceredigion



© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2013.
Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100019741.

Seilir rhai o nodweddion y map hwn ar ddata gofodol digidol tan drwydded y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH).

Dyddiad creu 27 Chwefror 2013

**Map 1 - Ardal SRhTDD (Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch) Teifi & Gogledd Ceredigion**

# Rhagair

Dŵr yw'r mwyaf hanfodol o'n hadnoddau naturiol ni, a'n gwaith ni yw sicrhau ein bod ni'n ei ddefnyddio mewn modd effeithiol a chynaliadwy. Dengys y rhagolygon twf poblogaeth a newid yn yr hinsawdd diweddaraf fod y pwysau ar adnoddau dŵr yn debyg o gynyddu yn y dyfodol. Yng ngoleuni hyn, rhaid inni sicrhau y parhawn i gynnal a gwella tynnu cynaliadwy, gan gydbwyso anghenion cymdeithas, yr economi a'r amgylchedd.

Dengys y strategaeth drwyddedu hon sut y rheolwn adnoddau dŵr yn y dalgylch, a rhydd i chi wybodaeth ynghylch sut y rheolwn drwyddedau tynnu presennol, ac argaeledd dŵr ar gyfer rhagor o dynnu.

Martyn Evans — Rheolwr Cynllunio a Phartneriaethau Ecosystemau, Ardal y De

## Cynnwys

**MAP 1 ARDAL SRHTTD TEIFI A GOGLEDD CEREDIGION**ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.

**1. YNGLŶN Â'R STRATEGAETH DRWYDDEDU 3**

**2. ARDAL SRHTDD TEIFI A GOGLEDD CEREDIGION 5**

**3. ARGAELEDD ADNODDAU DŴR ARDAL TEIFI A GOGLEDD CEREDIGION 7**

**4. SUT Y RHEOLWN DYNIADAU YN ARDAL TEIFI A GOGLEDD CEREDIGION 13**

**GEIRFA TERMAU** ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.

**RHESTR BYRFODDAU 26**

# 1. Ynglŷn â'r Strategaeth Drwyddedu

Dengys y Strategaeth Drwyddedu hon sut y rheolir adnoddau dŵr yn ardal Teifi a Gogledd Ceredigion. Darpara wybodaeth ynghylch ple mae dŵr ar gael ar gyfer rhagor o dynnu, a mynega pa mor ddibynadwy y gallai trwydded dynnu newydd fod.

Lluniwyd y strategaeth hon yn Mai 2014, a disodla'r strategaeth Teifi a gyhoeddwyd yn Ionawr 2004 a strategaeth Gogledd Ceredigion a gyhoeddwyd yn Ionawr 2008.

### Proses ddiwygiedig y Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch (SRhTDD)

Rydym wedi datblygu proses SRhTDD symlach. Mae'r broses newydd yn cynnwys nifer o newidiadau i'r ffordd o gynhyrchu SRhTDD:

- Erbyn hyn rydym yn defnyddio SRhTDD fel asesiad "byw" sy'n cael ei ddiweddaru'n barhaus, yn hytrach na'i adolygu ar gylch chwe blynedd;

- Byddwn yn cynnwys ymgynghori ynglŷn ag adnoddau dŵr ym mhroses Cynllunio Basnau Afon y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFfD). Fodd bynnag, byddwn yn dal i gynnal unrhyw ymgynghori wedi'i dargedu yn ymwneud â SRhTDD, fel sy'n ofynnol;

- Byddwn yn cynhyrchu mwy o ddogfennau cryno, wedi'u targedu at gwsmeriaid, yn fewnol ac yn cyhoeddi'r rhain ar y rhyngrwyd. Gall unrhyw un sydd am gael copi papur o'r ddogfen gael copi o'r fath o hyd;

- Bellach rydym yn gallu cyflwyno canlyniadau'r asesiad adnoddau ar lefel fwy lleol, ar sail dyfroedd sydd wedi'u diffinio gan y CFfD. Bydd hyn yn help inni gyflawni amcanion y CFfD a bydd yn cyfrannu at Gynllluniau Rheoli Basn Afon;

- Rydym wedi ailgrwpio'r dalgylchoedd afonydd i lai o ardaloedd SRhTDD. Mae hyn yn golygu llai o ddyblygu gwybodaeth gyffredinol a gwell defnydd o'n hadnoddau ni wrth gynhyrchu SRhTDD.

### Sut y mae SRhTDD yn cyfrannu at gyflawni amcanion amgylcheddol o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFfD)

Prif amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yw diogelu a gwella'r amgylchedd dyfrol, a sicrhau defnydd cynaliadwy ar adnoddau dŵr ar gyfer datblygu economaidd a chymdeithasol.

Mae Strategaethau Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch (SRhTDD) yn dangos sut y rheolwn adnoddau dŵr dalgylch ac y cyfranwn at weithredu'r CFfD.

Mae SRhTDD yn cyfrannu at y CFfD trwy:

- ddarparu asesiad adnoddau dŵr o afonydd, llynnoedd, cronfeydd, aberoedd a dŵr daear, a elwir yn "ddyfroedd" o dan y CFfD;
- canfod dyfroedd nad yw eu llif yn gyfryw ag y gellid disgwyl iddynt fod o statws ecolegol da;
- atal dirywiad statws dyfroedd yn sgil tyniadau newydd;
- darparu canlyniadau sy'n goleuo Cynllluniau Rheoli Basnau Afonydd (CRhBA).

### Pryd y mae angen trwydded dynnu?

Mae arnoch angen trwydded gennym os dymunwch dynnu rhagor na 20m$^3$/diwrnod (4,400 galwyn) o ddŵr y diwrnod o:

- afon neu nant;

- cronfa, llyn neu bwll;
- camlas;
- tarddell neu;
- ffynhonnell danddaearol.

Dibynna a roddir trwydded ai peidio ar faint o ddŵr sydd ar gael wedi diwallu anghenion yr amgylchedd a thynwyr presennol, ac a yw'r cyfiawnhad dros y tyniad yn rhesymol.

Os dymunwch ymgeisio am drwydded dynnu, neu newid trwydded sydd gennych eisoes, cysylltwch â ni:

- trwy'r ffôn ar 0300 065 3000
- trwy e-bost at ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
- neu ymwelwch â'n gwefan ni yn www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

**Datblygu cynaliadwy**

Cynhyrchwyd y strategaeth drwyddedu hon gan ddefnyddio tystiolaeth a gwybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch (SRhTDD). Trwy'r broses hon, ystyriwn effaith y tynnu adeg llif mawr, cymhedrol neu fychan. Mae hynny o gymorth i reoli'r tynnu mew modd mwy cynaliadwy yn y dyfodol.

Rydym bellach yn cloriannu adnoddau dŵr ar raddfa is-ddalgylchol o'r enw "dyfroedd". Golyga hyn y gallwn ddarparu gwybodaeth fanylach ynghylch argaeledd adnoddau dŵr yn ardal SRhTDD Teifi a Gogledd Ceredigion o'i chymharu â'r raddfa a ddefnyddiwyd yn y strategaeth flaenorol.

O fewn y strategaeth hon rydym hefyd yn amlinellu lle y gall y bydd angen inni leihau cyfraddau tynnu presennol, a'n hagwedd ni at osod cyfyngiadau amser ar drwyddedau.

Manylir ynghylch cefndir, amcanion ac egwyddorion SRhTDD, yr egwyddorion cyffredinol a ddefnyddiwn wrth reoli trwyddedau tynnu, a chysylltiadau â mentrau eraill yn ein dogfen Rheoli Tynnu Dŵr. Dylech ei darllen pan ddarllenoch strategaeth drwyddedu'r dalgylch neilltuol hwn.

# 2. Ardal SRhTDD Teifi a Gogledd Ceredigion

Ers i'r SRhTDD cyntaf gael eu cyhoeddi rydym wedi newid yr ardaloedd SRhTDD. Mae SRhTDD Teifi a Gogledd Ceredigion yn cyfuno ardaloedd gwreiddiol SRhTDD Teifi (2004) a SRhTDD Gogledd Ceredigion (2008).

Y dalgylchoedd afon sy'n cael eu hasesu yn y SRhTDD hon yw Teifi, Aeron, Arth, Wyre, Ystwyth, Rheidol, Melindwr a Chlarach, pob un ohonynt yn ddalgylchoedd dŵr wyneb yn bennaf sy'n llifo i Fae Ceredigion. Mae'r afonydd hyn yn tueddu i fod yn afonydd tir uchel serth, sy'n llifo'n gyflym, gyda gorlifdiroedd eang ar eu gwaelodion. Afonydd Teifi, Aeron, Ystwyth a Rheidol yw'r mwyaf.

Mae'r rhan fwyaf o ardal y SRhTDD o fewn Sir Ceredigion, yn ymestyn o Aberteifi yn y de i fymryn islaw'r Borth, i'r gogledd o Aberystwyth. Mae rhannau bach o ddalgylch Teifi yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Y prif drefi yn yr ardal yw Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llanybydder, Castellnewydd Emlyn, Ceinewydd, Aberaeron ac Aberystwyth. Dim ond ardaloedd bychan o ddatblygu diwydiannol sydd yma, yn bennaf ar orlifdir afon Teifi, gwaelodion dyffrynnoedd Aeron, Ystwyth a Rheidol ac o gwmpas Aberaeron ac Aberystwyth.

Amaethyddiaeth yw'r prif ddefnydd tir yn yr ardal wledig hon. Ffermydd llaeth a geir yn bennaf ar waelodion mwy ffrwythlon y dalgylchoedd, yn enwedig dalgylch Teifi, gyda ffermydd cymysg - llaeth a magu da byw – yng nghanol y dalgylchoedd a magu da byw yn y rhannau uchaf. Mae coedwigaeth i gyfrif am 20% yn fras o'r arwynebedd.

Mae'r dirwedd a'r amgylchedd naturiol yn bwysig iawn yn ardal y SRhTDD hon ac mae twristiaeth, yn ogystal ag amaethyddiaeth, yn chwarae rhan bwysig yn yr economi leol.


Mae ardal y SRhTDD yn cynnal amrywiaeth naturiol gyfoethog o gynefinoedd a rhywogaethau. Adlewyrchir hyn yn nifer y safleoedd dynodedig o bwys Ewropeaidd a Chenedlaethol yn yr ardal, gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA). Mae holl afonydd ardal y SRhTDD yn cynnal pysgodfeydd a buddiannau cadwraeth pwysig, a dynodwyd prif afon Teifi, a sawl un o'i rhagnentydd, yn ACA.

Mae 70 o dyniadau trwyddedig yn ardal SRhTDD Teifi a Gogledd Ceredigion, 65 ohonynt o ddyfroedd wyneb a 5 o ddyfroedd daear. Caiff dros 99% o holl gyfaint y dŵr sydd wedi'i drwyddedu ei dynnu o ddyfroedd wyneb. Mae hyn yn adlewyrchu'r gyfran fawr o'r dalgylchoedd sydd wedi'u heithrio ar hyn o bryd rhag trwyddedu tynnu dŵr daear. Mae tynnu dŵr o ffynonellau dŵr daear yn esempt ar hyn o bryd rhag cael ei drwyddedu dros ran helaeth o dde-orllewin Cymru drwy Offeryn Statudol (Gorchymyn Awdurdod Afonydd De-orllewin Cymru (Eithriadau rhag Rheolaeth) 1965). Mae'r eithriad hwn ar ddŵr daear yn debygol o gael ei ddileu o dan Ddeddf Dŵr 2003.

Ar wahân i afon Rheidol, mae'r afonydd yn weddol naturiol gan mai dim ond ar gyfran fach ohonynt y mae dylanwadau artiffisial yn effeithio. Dylanwadir yn sylweddol ar y llif yn afon Rheidol gan gynllun hydro-electrig Rheidol. Mae dros 80% o'r dŵr sydd wedi'i drwyddedu i gael ei dynnu yn ardal y SRhTDD hon yn cyflenwi'r cynllun hydro-electrig hwn. Y cyflenwad dŵr cyhoeddus sydd i gyfrif am y cyfaint ail fwyaf sydd wedi'i drwyddedu yn ardal y SRhTDD.

Caiff dŵr daear ei ddefnyddio'n helaeth ledled yr ardal i gynnal nifer fawr o dyniadau amaethyddol a domestig bach. Er bod y rhain yn niferus, nid yw'r cyfeintiau'n arwyddocaol. Caiff tyniadau dŵr daear esempt eu defnyddio hefyd at ddibenion sy'n cynnwys potelu dŵr a chyflenwad dŵr yfed.

Map 2 dalgylch ardal SRhTDD Teifi a Gogledd Ceredigion.




**Map 2 - Ardal SRhTDD Teifi a Gogledd Ceredigion**

# 3. Argaeledd adnoddau dŵr ardal Teifi a Gogledd Ceredigion

## 3.1 Asesu adnoddau

Mae asesu adnoddau wrth graidd rheoli tynnu. Er mwyn rheoli dŵr yn effeithiol, mae angen inni ddeall faint sydd ar gael, a phle mae ar gael, wedi ystyried anghenion yr amgylchedd. Mae gennym rwydwaith arolygu ar gyfer mesur llif afonydd a lefelau dŵr daear. Defnyddiwn y data hwn, ynghyd â'n gwybodaeth ni am ddylanwadau dynol ac anghenion amgylcheddol, i sefydlu gwaelodlin argaeledd dŵr ar gyfer pob dŵr unigol, sydd â'i gilydd yn creu darlun ar gyfer y dalgylch. Prif gydrannau'r asesiad hwn sydd o gymorth inni amgyffred argaeledd adnoddau dŵr yw:

- dynodiad adnoddau gyfer yr amgylchedd, a ddiffinnir yn gyfran o'r llif naturiol, ac a elwir yn Fynegydd Llif Amgylcheddol (MLIA);
- y sefyllfa Llwyr Drwyddedig (LID), sef sefyllfa lle defnyddid yr holl drwyddedau i'w heithaf;
- y sefyllfa Ddiweddar Wirioneddol (DW), sef faint o ddŵr a dynnwyd, mewn gwirionedd, ar gyfartaledd yn ystod y chwe blynedd diwethaf.

Mae llif afonydd yn newid yn naturiol gydol y flwyddyn, felly dymunwn ddiogelu amrywiaeth llif ein hafonydd. Defnyddiwn ystadegau llif i'n cynorthwyo yn hynny. Mynegir ystadegau llif yn ganran yr amser y mae'r llif yn fwy na hynny. Golyga llif Q95, er enghraifft, fod llif yr afon yn fwy na'r llif Q95 95% o'r amser. Amcangyfrifir argaeledd adnodd ar bedwar gwahanol lif, sef Q95 (lleiaf), Q70, Q50 a Q30 (mwyaf).

Rhydd yr wybodaeth hon ddarlun realistig o faint o ddŵr sydd ar gael ar hyn o bryd yn unrhyw ddŵr neilltuol. Mae "dyfroedd" yn unedau dŵr wyneb neu ddŵr daear is-ddalgylchol, a ddefnyddiwn ar gyfer cynnal asesiadau a mapio canlyniadau.

## 3.2 Argaeledd adnoddau

### 3.2.1 Dŵr wyneb

Os dymunwch dynnu dŵr, mae angen i chi wybod pa adnoddau dŵr sydd ar gael o fewn dalgylch, ac ymhle y caniateir tynnu at ddibenion <u>defnyddiadol</u>. Er mwyn dangos hyn, bu inni ddatblygu trefn ddosbarthu a fynega:

- y cydbwysedd cymharol rhwng y gofynion amgylcheddol am ddŵr, a faint a drwyddedir ar gyfer tynnu;
- a yw dŵr ar gael ar gyfer rhagor o dynnu;
- ardaloedd ple y gall y bydd angen lleihau tynnu.

Pennir argaeledd dŵr gan y berthynas rhwng llifau trwyddedig cyflawn a gwirioneddol diweddar mewn perthynas â'r MLIA. Dangosir y canlyniadau a fepir ar y dyfroedd hyn gan wahanol liwiau argaeledd dŵr sy'n dangos argaeledd adnoddau dŵr ar gyfer rhagor o dynnu. Esbonnir y lliwiau argaeledd adnoddau dŵr hyn yn Nhabl 1.
Yn ychwanegol at y lliwiau argaeledd adnoddau dŵr hyn, rydym wedi dosbarthu rhai dyfroedd dŵr wyneb yn rhai "statws hydrolegol uchel", o liw glas ar y mapiau. Yn y dyfroedd hyn nid oes fawr ddim tynnu, a dangosant amgylchiadau llif nad aflonyddwyd arnynt, i bob diben, neu rai agos at naturiol.

Dengys Map 3 liwiau argaeledd adnoddau dŵr ardal Teifi a Gogledd Ceredigion.  Nid oes dyfroedd o 'statws hydrolegol uchel' yn ardal y SRhTDD hon.

Dosbarth arall o ddyfroedd yw'r Dyfroedd a Addaswyd yn Sylweddol (DAS). Gellir eu dosbarthu felly am lawer i reswm, ond yn achos adnoddau dŵr fe'u dosberthir felly os cynhwysant lyn a/neu gronfa sy'n dylanwadu ar natur y llif o'r man hwnnw at i lawr yr afon. Bernir bod y dyfroedd islaw'r llyn neu'r gronfa wedi eu haddasu'n sylweddol, hefyd.

Yn ystod penderfynu ynghylch trwydded newydd, ychwanegwn ati unrhyw amodau angenrheidiol ar gyfer diogelu llifau. Seiliwn amodau'r drwydded ar argaeledd yr adnodd dŵr ar wahanol lifau (o fawr i fychan). Rhestra Tabl 1 oblygiadau trwyddedu ar gyfer pob lliw argaeledd adnodd dŵr.

Yn achosion lle bo diffyg llif (h.y. mae'r DW yn llai na'r MLIA), neu mae perygl y bydd diffyg llif (h.y. mae'r LID yn llai na'r MLIA), efallai y bydd dŵr ar gael i'w dynnu pan fo'r llif yn fawr. Golyga hyn y gall y bydd dŵr yn brin ar lif bychan, ond ar gael i'w dynnu ar lif canolig neu fawr. Efallai y rhoddir trwydded, ond gyfan amodau sy'n diogelu'r llifau bychain. Hynny, fel arfer, ar lun amod Llif Annibynnol (LIA), sy'n mynnu bod tynnu'n peidio pan fo llif yr afon yn llai na maint penodol. Efallai, hefyd, yr ategir afon yn sylweddol gan lifau o gronfa, a bod ei llifau 'bychain' yn annaturiol o fawr: sy'n golygu bod amgylchedd yr afon ar ei fwyaf agored i berygl pan fo'r llif yn ganolig.

| **Lliw argaeledd adnodd dŵr** | **Goblygiad ar gyfer trwyddedu** |
|---|---|
| Patrymedd hydrolegol sylweddol | Mae rhagor o ddŵr nag y mae'i angen ar gyfer diwallu anghenion yr amgylchedd. Eithr oherwydd bod angen cynnal natur agos dilychwin y dŵr unigol hwnnw, mae cyfyngu llym ar ragor o dynnu. |
| Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | Mae rhagor o ddŵr nag y mae'i angen ar gyfer diwallu anghenion yr amgylchedd. Gellir ystyried trwyddedau newydd, gan ddibynnu ar effeithiau lleol ac i gyfeiriad y llif. |
| Dŵr cyfyngedig ar gael ar gyfer trwyddedu | Llifau trwyddedig llawn yn llai na'r MLIAau.<br>Os tynnir yr holl ddŵr trwyddedig, ni fydd digon yn weddill at anghenion yr amgylchedd. Ni roddid unrhyw drwyddedau defnyddiadol eraill. Efallai mai addas, hefyd, fyddai ymchwilio i bosibiliadau lleihau peryglon cwbl drwyddedig. Efallai bod dŵr ar gael os gallwch 'brynu' hawl tynnu dŵr gan un sydd â thrwydded eisoes (sef masnachu trwydded). |
| Nid oes dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | Llifau Diweddar Gwirioneddol yn llai na'r MLIA.<br>Tanlinella'r sefyllfa hon ddyfroedd lle mae'r llifau'n llai na'r gofyniad llif mynegol ar gyfer helpu cynnal Statws Ecolegol Da (yn ôl gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr).<br>Sylwer: Ar hyn o bryd, rydym yn ymchwilio i ddyfroedd nad ydynt yn cynnal Statws Ecolegol Da / Potensial Ecolegol Da. Ni roddir rhagor o drwyddedau defnyddiadol. Efallai bod dŵr ar gael os gallwch 'brynu', gan un sydd â thrwydded eisoes, cyfaint o ddŵr sydd gymaint â'r hyn a dynnwyd yn ddiweddar. |
| DAS | Mae llif y dyfroedd hyn wedi'i addasu gan ollyngiadau digolledol o gronfeydd, neu y mae ychwanegu at eu llif. Fe'u gelwir, yn aml, yn 'ddyfroedd rheoledig'. Gellid eu rheoli trwy gytundeb gweithredu, a ddelir yn aml gan gwmni dŵr. Dibynna argaeledd dŵr ar y cytundebau gweithredu hyn. Ceir rhagor o wybodaeth, os yn berthnasol, yn adran 4.2.1 Dŵr Wyneb.<br>Efallai y bydd dŵr ar gael i'w dynnu mewn dalgylchoedd helaeth eu gollyngiadau. Mae angen i chi gysylltu â ni er mwyn canfod rhagor. |

**Tabl 1 - Goblygiadau lliwiau argaeledd adnoddau dŵr.**


### 3.2.2 Dŵr daear

Llywir argaeledd dŵr daear gan liwiau argaeledd adnodd dŵr wyneb, oni bo gennym well wybodaeth ynghylch prif ddyfrhaenau neu'r ydym yn ymwybodol o faterion lleol y mae angen inni'u hamddiffyn.

Ewch i adran 4.2.2 i gael rhagor o wybodaeth.

Dengys Map 3 liwiau argaeledd adnodd dŵr yn ardal SRhTDD Teifi a Gogledd Ceredigion, a hynny yn achos dyfroedd daear ac wyneb.

| **Lliw argaeledd adnodd UADD** | **Goblygiad ar gyfer trwyddedu** |
|---|---|
| Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | Dengys cydbwysedd uned dŵr daear fod dŵr daear ar gael ar gyfer trwyddedu. Gellir ystyried trwyddedau newydd, gan ddibynnu ar effeithiau ar dynwyr eraill ac ar ddŵr wyneb. |
| Dŵr cyfyngedig ar gael ar gyfer trwyddedu | Dengys cydbwysedd uned dŵr daear fod rhagor o ddŵr wedi'i drwyddedu na'r hyn sydd ar gael **NEU** fod effeithiau lleol hysbys yn debygol ar gorstiroedd dibynadwy neu lefelau dŵr daear, neu achosi mewnwthiadau ond gyda dewisiadau rheoli wedi'u darparu.<br><br>Yn unedau dŵr daear cyfyngedig, ni roddir trwyddedau defnyddiadol newydd. Efallai mai addas, hefyd, fyddai ymchwilio i bosibiliadau lleihau peryglon cwbl drwyddedig. Efallai bod dŵr ar gael os gallwch 'brynu' hawl tynnu dŵr gan un sydd â thrwydded eisoes (sef masnachu trwydded).<br><br>Efallai bod cyfyngiadau yn unedau eraill yn rhai ardaloedd: mewn perthynas â mewnwthiad heli, e.e. |
| Nid oes dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | Dengys cydbwysedd uned dŵr daear y tynnwyd rhagor o ddŵr, ar sail symiau diweddar, na'r swm sydd ar gael.<br><br>Ni roddir ychwaneg o drwyddedau defnyddiadol. |




**Map 3 - Lliwiau argaeledd adnodd dŵr ar gyfer SRhTDD Teifi a Gogledd Ceredigion**

## 3.3 Argaeledd adnodd


Os dymunwch ymgeisio am drwydded, talai i chi ystyried y gall na fyddai tyniad defnyddiadol newydd yn gwbl ddibynadwy yn rhai ardaloedd. Seilir gwybodaeth dibynadwyedd ar liwiau argaeledd adnodd SRhTDD, ac y mae'n fodd dangos dibynadwyedd tyniadau newydd ym mhob cyflwr llif.

Mae argaeledd dŵr ar gyfer tynnu o afon yn amrywio'n fawr yn ôl a yw'r llif yn fawr ynteu'n fychan. Trwy asesu faint o ddŵr sydd ar gael ar wahanol lifau, mae modd gweld lle bo gormodedd ynteu diffyg dŵr, a dibynadwyedd cysylltiedig tyniad. Arwydd yn unig yw hwn: trafodir dibynadwyedd gwirioneddol trwydded pan ymgeisir.

Dengys Tabl 2 y lliw argaeledd adnodd cysylltiedig â chanran dibynadwyedd tyniad defnyddiadol. Mynega Map 4 dibynadwyedd adnodd ardal Teifi a Gogledd Ceredigion, wedi'i fynegi'n ganran amser.

| Adnodd | Canran o'r amser y gallai adnodd defnyddiadol ychwanegol fod ar gael |
|---|---|
| | Tyniad defnyddiadol ar gael **llai na** 30% o'r amser. |
| | Tyniad defnyddiadol ar gael **o leiaf** 30% o'r amser. |
| | Tyniad defnyddiadol ar gael **o leiaf** 50% o'r amser. |
| | Tyniad defnyddiadol ar gael **o leiaf** 70% o'r amser. |
| | Tyniad defnyddiadol ar gael **o leiaf** 95% o'r amser. |
| | Nis aseswyd |

**Tabl 2 - Canran dibynadwyedd tyniad defnyddiadol.**




**Map 4 – Dibynadwyedd yr adnoddau dŵr wedi'i fynegi ar ffurf canran o'r amser y maent ar gael**

# 4. Sut y rheolwn dyniadau yn ardal Teifi a Gogledd Ceredigion

## 4.1 Egwyddorion

Amlinella'r ddogfen Rheoli Tynnu Dŵr yr egwyddorion cyffredinol a ganlynwn wrth reoli ein hadnoddau dŵr. Yn yr adran hon, amlinellir sut y gweithredwn yr egwyddorion hyn yn ardal Teifi a Gogledd Ceredigion. Os dymunwch dynnu dŵr, amlinella ymhle y mae dŵr ar gael ar gyfer rhagor o dynnu, a'r egwyddorion a ganlynwn wrth glorriannu'ch cais chi am drwydded.

**Y broses ymgeisio am drwydded dynnu**

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno cymryd rhagor nag 20m$^3$/diwrnod (4,400 galwyn) o 'ffynhonnell gyflenwi' (afon, nant, llyn, ffynnon, dŵr daear ac ati) fod â thrwydded. Mae proses ymgeisio am dyniad yn debyg i'r broses gynllunio, yn gymaint ag y gall y mynnwn yr hysbysebir y cais, ac y gofynnwn am wybodaeth amgylcheddol ategol. Wrth ystyried y cais, edrychwn a yw'r symiau yr ymgeisir amdanynt, a diben y tyniad, yn rhesymol; bod digon o ddŵr ar gael i'w gynnal, a bod yr effeithiau dichonol ar yr amgylchedd a defnyddwyr dŵr eraill yn rhesymol. Gan ddibynnu ar ganlyniad ein hymchwiliadau, rhoddwn drwydded un ai'n unol â'r cais amdani, ynteu ag amodau sy'n cyfyngu'r tynnu er mwyn diogelu'r amgylchedd neu ddefnyddwyr eraill. Yn rhai achosion, efallai y bydd rhaid inni wrthod y cais. Mae gan unrhyw ymgeisydd nad yw'n fodlon â'n penderfyniad ni hawl apelio yn ei erbyn.

**Penderfynir pob un cais yn ôl ei deilyngdod**

Er y gallai'r ddogfen hon ddweud bod dŵr ar gael ar gyfer rhagor o dynnu, ni waranta hynny y bydd pob cais yn llwyddiannus. Penderfynwn bob un cais yn ôl ei deilyngdod ac unrhyw effeithiau lleol.

**Ni waranta trwydded fod dŵr ar gael**

Mae'n bwysig deall na warantwn y cyflenwad dŵr pan roddwn drwydded. Rhaid inni ddiogelu'r amgylchedd a hawliau tynnwyr eraill. Er mwyn gwneud hyn, efallai yr ychwanegwn gyfyngiadau at drwyddedau. Mae angen i ddeiliaid trwyddedau ddeall goblygiadau hyn, gan yr effeithia ar ddibynadwyedd y cyflenwad. Ym mlynyddoedd sychach, er enghraifft, mae'n fwy tebygol y daw'r cyfyngiadau hyn i rym, ac yr atelir tynnu.

**Rheolir tyniadau er mwyn diogelu'r amgylchedd.**

**Dim dirywiad ecolegol**

Cloriannwn effaith ceisiadau newydd am dyniadau er mwyn sicrhau y bydd y llifau afon canlyniadol:

- yn cynnal ecoleg dda, neu, onid yw'r ecoleg yn dda, na fydd yn gwaethygu rhagor ar ecoleg ein hafonydd;
- yn cynnal cyflwr agos ddigyffwrdd dyfroedd patrymedd hydrolegol sylweddol.
- Gweithredwn, os bydd angen, i gyfyngu'r cynnydd yn nhynnu presennol os tybiwn yr arweinia hynny ar ddirywiad yr ecoleg neu gyflwr agos ddigyffwrdd dyfroedd patrymedd hydrolegol sylweddol.

Mae a wnelo'r egwyddorion hyn â'r dŵr lle ceir y tyniad, a hefyd â phob dŵr yng nghyfeiriad y llif y gall yr effeithir arnynt gan unrhyw leihad llif o ganlyniad i dynnu. Golyga wneud hyn y cynhaliwn statws y dŵr fel y'i hysbysir yn y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd (2009), ac y sicrhawn gydymffurfiaeth â Chyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr Undeb Ewropeaidd.

**Effeithlonrwydd dŵr a rheoli'r galw**

Mae angen inni wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau dŵr presennol. Gall cymryd camre effeithlonrwydd dŵr a rheoli'r galw ein cynorthwyo i gyflawni'r nod hwn. Mae effeithlonrwydd dŵr yn un o'r profion y bydd angen eu bodlonni cyn y rhoddwn drwydded newydd neu yr adnewyddwn drwydded â chyfyngiad amser. Hyrwyddwn ddefnyddio dŵr mewn modd doeth ac effeithlon, a chamre cyfyngu'r galw (a lleihau gollyngiadau) er mwyn ffrwyno twf tynnu a chyfyngu'r effaith ar lifau ac unrhyw effaith ganlyniadol ar yr amgylchedd. Ceir rhagor o fanylion ein hagwedd gyffredinol at drwyddedu yn y ddogfen Rheoli Tynnu Dŵr.

**Croniadau**
Mae croniad yn argae, yn gored neu'n adeilad arall mewn dyfrffordd fewndirol sy'n atal neu'n llesteirio llif, neu'n codi lefelau dŵr, neu'r ddau beth. Delir â cheisiadau am groniadau fesul achos unigol.

**Ynni dŵr**
Nid yw tynnu dŵr ar gyfer ynni dŵr yn ddefnyddiadol, gan yr arferir dychwelyd yr holl ddŵr i'r ddyfrffos. Pennir Llifau Annibynnol ac uchafsymiau cyfaint tynnu yn unol â'n cyfarwyddyd, ac ar sail yr asesiad o berygl amgylcheddol ar gyfer pob un cynllun. Am ragor o wybodaeth, gweler ein gwefan.

## 4.2 Cyfyngiadau ar dynnu

Wrth roi trwydded, rhaid inni ddiogelu'r amgylchedd a hawliau tynnwyr eraill. Er mwyn gwneud hyn, efallai yr ychwanegwn amodau at drwyddedau.

**Trwyddedau tan gyfyngiad amser**
Gan gydnabod newidiadau yn y galw am adnoddau dŵr, bydd cyfyngiad amser ar bob trwydded a newid newydd (arall na newidiadau sy'n golygu tynnu llai, neu newidiadau mân nad ydynt yn effeithio ar yr amgylchedd). Caniatâ hynny adolygu trwyddedau tynnu'n achlysurol, a'u newid, lle mae amgylchiadau wedi newid ers y rhoddwyd y drwydded.

Mae gan bob trwydded newydd mewn ardal SRhTDD ddyddiad darfod cyffredin (DDC), fel y gellir eu hadolygu oll ar yr un pryd. Pan wneir cais o fewn chwe blynedd i'r DDC, byddwn, yn gyffredinol, yn gosod y DDC canlyniadol ar unrhyw drwydded a roddir. Hynny er mwyn osgoi rhoi trwyddedau sy'n parhau llai a llai o amser wrth i'r DDC agosáu. Golyga hyn y gall y DDC dechreuol ar drwydded barhau rhwng 6 a 18 mlynedd. Pan roddir trwydded newydd yn lle'r hen, bydd yn parhau 12 mlynedd, fel arfer.

Lle'r ydym, fodd bynnag, yn ansicr ynghylch effeithiau tymor hir tyniad, rhoddwn drwydded tymor byr, yn ystod pa gyfnod yr arolygir effeithiau dichonol.

Mae tair ar ddeg o drwyddedau ardal SRhTDD Teifi a Gogledd Ceredigion tan gyfyngiad amser. Mae DDCau pob deuddeng mlynedd.  Y DDC nesaf ar gyfer SRhTDD Teifi a Gogledd Ceredigion yw 2028 a'r un canlynol yw 2040.

Ceir rhagor o wybodaeth am osod trwyddedau tan gyfyngiad amser yn Rheoli Tynnu Dŵr.

**Amodau llif annibynnol**
Er mwyn diogelu'r amgylchedd, efallai y rhoddwn drwydded ag amod a elwir yn 'Llif Annibynnol" (LlA). Dywed fod rhaid rhoi'r gorau i dynnu os yw llif afon yn gostwng islaw'r hyn y mae'i angen er mwyn diogelu'r amgylchedd: felly "Llif Annibynnol".

### 4.2.1 Dŵr wyneb

Aseswn lifau dŵr wyneb ym Mannau Asesu (MA), sef mannau o bwys ar yr afon, yn aml yng nghymer dwy afon fawr, neu lle bo gorsaf fedryddu. Os â'r llif yn llai na'r MLlA, efallai y gosodir amodau LlA ar dyniadau newydd.

Rhydd Tablau 3a a 3b syniad o faint o ddŵr sydd ar gael ar gyfer rhagor o dynnu, a'r cyfyngiadau cysylltiedig y gallwn eu rhoi ar drwyddedau tynnu newydd a newidiedig. Gallai'r llif yn y blaenddyfroedd neu ar lednentydd nad ydynt wedi cael eu hasesu fod yn llawer is nag ym MA'r SRhTDD.  Gallai tynnu dŵr o'r darnau hyn o afonydd fod yn ddarostyngedig i wahanol gyfyngiadau a chyfeintiau na'r rhai sydd wedi'u nodi isod

Cysylltir pob LlA â MA, ac y mae'n ddibynnol ar yr argaeledd adnodd yn y MA hwnnw. Yn rhai achosion, efallai y bydd cyfyngiadau ychwanegol ar drwyddedau lle bo argaeledd adnodd pwysicach i lawr yr afon, er mwyn diogelu gofynion ecolegol yr afon. Manylir ynghylch hynny yng ngholofn olaf Tabl 3, os yw'n berthnasol.

Mae pob cais am drwydded dynnu'n destun asesiad er mwyn ystyried unrhyw faterion lleol ac ymhellach i gyfeiriad y llif, ac efallai y bydd unrhyw dynnu canlyniadol yn destun cyfyngiadau ychwanegol.

Gan ddarllen o’r pen i’r gwaelod, ceir yn Nhablau 3a a 3b” MA ardal SRhTDD Teifi a Gogledd Ceredigion. Gan ddarllen ar draws y colofnau, gallwch weld y LlA dichonol y gall y’i rhoddir ar y drwydded; nifer y dyddiau y gall y bydd dŵr ar gael o dan y cyfyngiad hwn, ac, yn fras, cyfaint y dŵr, mewn megalitrau'r diwrnod (Ml/d), a allai fod ar gael. Lle bo dŵr ar gael waeth faint fo’r llif, efallai y gosodwn Lif Gweddilliol Lleiaf (LlGLl) er mwyn diogelu llifau bychain iawn. Penderfynwn ar hyn fesul achos unigol.

Manylir ar ystyriaethau sy’n benodol i bob MA o ran argaeledd dŵr, cyfyngiadau, ac ati, yn y testun islaw’r tablau.

| MA | Enw | Lliw argaeledd adnodd dŵr | Cyfyngiad LlA (Ml/d) | Nifer diwrnodau’r flwyddyn y gallai tyniad fod ar gael | Cyfaint bras sydd ar gael oherwydd cyfyngiad (Ml/d) | Oes yna orsaf fedryddu yn y MA hwn? | Cyfyngiadau ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Teifi ar y terfyn llanw | Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | LlA2 491.2Ml/d (Q85) | 310 | 13.5 | Nac oes | Pennwyd LlA uwch i warchod yr ACA. Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |
| **2** | Cych i fyny’r afon o’i chymer ag afon Teifi | Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | LlA1 36.2Ml/d (Q95) | 347 | 3.6 | Nac oes | Pennwyd LlA uwch i warchod yr ACA i lawr yr afon. Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |
| **3** | Teifi i fyny’r afon o afon Cych | Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | LLA2 412.4 (Q85) | 310 | 13.5 | Nac oes | Diystyrwyd y canlyniadau i warchod y llifau ym MA1 sef yr MA tyngedfennol. Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |
| **4** | Ceri i fyny’r afon o’i chymer ag afon Teifi | Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | LLA1 12Ml/d (Q95) | 347 | 1.3 | Nac oes | Pennwyd LlA uwch i warchod yr ACA i lawr yr afon. Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |
| **5** | Clettwr i fyny’r afon o’i chymer ag afon Teifi | Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | LLA1 21.1Ml/d (Q95) | 347 | 1.4 | Nac oes | Pennwyd LlA uwch i warchod yr ACA i lawr yr afon. Gweler y strategaeth |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | drwyddedu isod. |
| **6** | Teifi i fyny'r afon o afon Clettwr | Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | LLA2 219.1Ml/d (Q85) | 310 | 10.2 | Nac oes | Diystyrwyd y canlyniadau i warchod y llifau ym MA1 sef yr MA tyngedfennol. Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |
| **7** | Dulas i fynu'r afon o'i chymer ag afon Teifi | Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | LLA1 6.4Ml/d (Q95) | 347 | 0.3 | Nac oes | Pennwyd LlA uwch i warchod yr ACA i lawr yr afon. Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |
| **8** | Teifi i fyny'r afon o afon Dulas (Llanbed) | Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | LLA1 71.7Ml/d (Q95) | 347 | 2.1 | Nac oes | Pennwyd LlA uwch i warchod yr ACA. Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |
| **9** | Teifi ger Pont Einon | Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | LLA2 56.5Ml/d (Q85) | 310 | 0.2 | Nac oes | Pennwyd LlA uwch i warchod yr ACA. Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |
| **10** | Teifi i fyny'r afon o Gors Caron | Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | LLA3 51.1Ml/d (Q75) | 274 | 1 | Nac oes | Pennwyd LlA uwch i warchod yr ACA. Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |
| **11** | Teifi ger gorsaf fedryddu Glan Teifi | Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | LLA2 472.2Ml/d (Q85) | 310 | 13.5 | Oes | Diystyrwyd y canlyniadau i warchod y llifau ym MA1 sef yr MA tyngedfennol. Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |
| **12** | Tyweli i fyny'r afon o'i chymer ag afon Teifi | Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | LLA1 20.8Ml/d (Q95) | 347 | 2.5 | Nac oes | Pennwyd LlA uwch i warchod yr ACA i lawr yr afon. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |

**Tabl 3a – Argaeledd dŵr i fannau asesu dalgylchoedd afon Teifi.**

| MA | Enw | Lliw argaeledd adnodd dŵr | Cyfyngiad LlA (Ml/d) | Nifer diwrnodau'r flwyddyn y gallai tyniad fod ar gael | Cyfaint bras sydd ar gael oherwydd cyfyngiad (Ml/d) | Oes yna orsaf fedryddu yn y MA hwn? | Cyfyngiadau ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Aeron ger pont ffordd Aberaeron | Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | LlGLl 10.5Ml/d | 365 | 2.5 | Nac oes | Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |
| **2** | Aeron yn Llangeitho | Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | LlGLl 1.9Ml/d | 365 | 0.5 | Nac oes | Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |
| **3** | Arth yn Aberarth | Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | LlGLl 1.6 | 365 | 0.3 | Nac oes | Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |
| **4** | Wyre ar derfyn llanw Llanrhystud | Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | LLA2 9.2Ml/d (Q85) | 310 | 1.1 | Nac oes | Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |
| **5** | Ystwyth ger gorsaf fedryddu Pont Lolwyn | Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | LlGLl 18.8Ml/d | 365 | 4.9 | Oes | Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |
| **6** | Ystwyth ger gorsaf fedryddu Wenallt | Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | LlGLl 10.8Ml/d | 365 | 3.0 | Oes | Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |
| **7** | Ystwyth ger gorsaf fedryddu Cwmystwyth | Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | LlGLl 5.6Ml/d | 365 | 0.6 | Oes | Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |
| **8** | Rheidol ger gorsaf fedryddu Llanbadarn | Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | LlGLl 31Ml/d | 365 | 3.5 | Oes | Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |
| **9** | Rheidol yng Nghwm Rheidol | Nid oes dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | Ddim yn berthnasol | N/A | 0 | Nac oes | Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |
| **10** | Rheidol i lawr yr afon o Dinas ac i fyny'r afon o'i chymer ag afon Castell | Nid oes dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | Ddim yn berthnasol | N/A | 0 | Nac oes | Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |
| **11** | Castell i fyny'r afon o'i chymer | Nid oes dŵr ar gael ar | Ddim yn berthnasol | N/A | 0 | Nac oes | Gweler y strategaeth drwyddedu |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ag afon Rheidol | gyfer trwyddedu | | | | | isod. |
| **12** | Melindwr i fyny'r afon o'i chymer ag afon Rheidol | Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | LLA2 7.2Ml/d (Q85) | 310 | 0.9 | Nac oes | Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |
| **13** | Clarach ger Pont Llangorwen | Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | LIGLI 4.8Ml/d | 365 | 1 | Nac oes | Gweler y strategaeth drwyddedu isod. |

**Tabl 3b - Argaeledd dŵr i fannau asesu dalgylchoedd SRhTDD Gogledd Ceredigion.**

## Dalgylch afon Teifi

**MA1, Teifi ar y terfyn llanw**
**MA2, Afon Cych i fyny'r afon o'i chymer ag afon Teifi**
**MA3, Teifi i fyny'r afon o afon Cych**
**MA4, Ceri i fyny'r afon o'i chymer ag afon Teifi**
**MA5, Clettwr i fyny'r afon o'i chymer ag afon Teifi**
**MA6, Teifi i fyny'r afon o afon Clettwr**
**MA7, Dulas i fyny'r afon o'i chymer ag afon Teifi (Llanbed)**
**MA8, Teifi i fyny'r afon o afon Dulas (Llanbed)**
**MA9, Teifi ger Pont Einon**
**MA10, Teifi i fyny'r afon o Gors Caron**
**MA11, Teifi ger gorsaf fedryddu Glan Teifi**
**MA12, Tyweli i fyny'r afon o'i chymer ag afon Teifi**

Mae dŵr ar gael i'w drwyddedu yn y mannau asesu hyn. Mae hyn yn golygu:

- Caiff trwyddedau newydd eu rhoi, gydag amodau LIA lle mae hynny'n briodol.
- Bydd trwyddedau newydd i dynnu dŵr daear yn ddarostyngedig i'r un amodau â thyniadau dŵr wyneb.
- Bydd trwyddedau newydd yn ddarostyngedig i ofynion y Rheoliadau Cynefinoedd, yn ogystal â'r uchod, a allai olygu cyfyngiadau llymach na'r rhai sydd wedi'u nodi yn y SRhTDD.

O ran trwyddedau presennol:

- Ni fydd unrhyw effaith ar drwyddedau tynnu dŵr presennol, ac eithrio'r rhai sydd wedi'u nodi o ganlyniad i Adolygiad Caniatadau'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Byddwn wedi cysylltu â chi'n barod os yw hyn yn berthnasol i'ch trwydded chi.
- Mae rhagdybiaeth o blaid adnewyddu, yn amodol ar y meini prawf adnewyddu eraill ac ystyriaethau lleol.
- Gall mân newidiadau gael eu gwneud wrth adnewyddu trwyddedau, yn cynnwys ychwanegu amodau effeithlonrwydd dŵr.
- Gallai newidiadau gael eu gwneud i drwyddedau wrth eu hadnewyddu, yn dibynnu ar asesiadau'r CFfD, sy'n dibynnu ar statws ecolegol y dŵr. Caiff hyn ei drafod mor fuan â phosibl gyda deiliad y drwydded.

### Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Teifi

Gan fod prif afon Teifi a nifer o'i rhagnentydd yn ACA, bydd pob cais newydd am drwydded o fewn y safle dynodedig hwn, ac i fyny'r afon ohono, yn amodol ar asesiad o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Golyga hyn asesu'r heffaith ddichonol ar y rhywogaethau a'r cynefinoedd gwarchodedig, ar eu pennau eu hunain ac mewn cyfuniad â thrwyddedau eraill.

I warchod cynefinoedd a rhywogaethau'r ACA, rhaid i ni fod yn rwy rhagofalus na'r asesiad SRhTDD. Mae hyn yn golygu y bydd y rhan fwyaf o drwyddedau newydd yn cynnwys amodau LIA.

## Dalgylchoedd Gogledd Ceredigion

**MA1, Aeron ger pont ffordd Aberaeron**
**MA2, Aeron yn Llangeitho**
**MA3, Arth yn Aberarth**
**MA4, Wyre ar derfyn llanw Llanrhystud**
**MA5, Ystwyth ger gorsaf fedryddu Pont Llolwyn**
**MA6, Ystwyth ger gorsaf fedryddu Wenallt**
**MA7, Ystwyth ger gorsaf fedryddu Cwmystwyth**
**MA13, Clarach ger Pont Llangorwen**

Mae dŵr ar gael i'w drwyddedu yn y mannau asesu hyn. Mae hyn yn golygu:

- Caiff trwyddedau newydd eu rhoi, gydag amodau LlA lle mae hynny'n briodol.
- Bydd trwyddedau newydd i dynnu dŵr daear yn ddarostyngedig i'r un amodau â thyniadau dŵr wyneb.

O ran trwyddedau presennol:

- Mae rhagdybiaeth o blaid adnewyddu, yn amodol ar y meini prawf adnewyddu eraill ac ystyriaethau lleol.
- Gall mân newidiadau gael eu gwneud wrth adnewyddu trwyddedau, yn cynnwys ychwanegu amodau effeithlonrwydd dŵr.
- Gallai newidiadau gael eu gwneud i drwyddedau wrth eu hadnewyddu, yn dibynnu ar asesiadau'r CFfD, sy'n dibynnu ar statws ecolegol y dŵr. Caiff hyn ei drafod mor fuan â phosibl gyda deiliad y drwydded.

Mae rhannau o afon Clarach o Blas Gogerddan i Bont Llangorwen ar sail o raean a, phan fydd y llif yn isel, mae'r afon yn aml yn llifo o dan wely'r afon nes iddi ailymddangos ymhellach i lawr yr afon. Gallai hyn olygu fod tyniadau dŵr yn llai dibynadwy ac y bydd cyfyngiadau llif isel yn dod i rym yn amlach.

**MA8, Rheidol ger gorsaf fedryddu Llanbadarn**
**MA9, Rheidol yng Nghwm Rheidol**
**MA10, Rheidol i lawr yr afon o Dinas ac i fyny'r afon o'i chymer ag afon Castell**
**MA11, Castell i fyny'r afon o'i chymer ag afon Rheidol**
**MA12, Melindwr i fyny'r afon o'i chymer ag afon Rheidol**

Nid oes dŵr ar gael i'w drwyddedu yn y mannau asesu hyn. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ddŵr ar gael i lawr yr afon o Gwm Rheidol.

Mae hyn yn golygu, o ran trwyddedau newydd:

- Bydd trwyddedau an-nefnyddiadol yn cael eu hystyried fesul achos unigol, ond gallent fod yn ddarostyngedig i gyfyngiadau.
- Mae arnom ddyletswydd peidio â rhanddirymu hawliau gwarchodedig ac ystyried unrhyw ddefnydd cyfreithlon. Uwchlaw Cwm Rheidol, ystyrir trwyddedau tynnu an-nefnyddiadol fesul achos unigol, a gallent fod yn amodol ar gyfyngiadau er mwyn gwarchod yr amgylchedd a defnyddwyr eraill.
- Nid yw tyniadau defnyddiadol yn debygol o gael eu hystyried o afon Rheidol nac afon Castell i fyny'r afon o'u cymer.
- Mae'r llifau naturiol i lawr yr afon o Gwm Rheidol ar gael ar gyfer tynnu dŵr. Yn ychwanegol at y llifau naturiol hyn, efallai y bydd tynnu pellach yn bosibl o'r dŵr a ryddheir o Gwm Rheidol. Caiff hyn ei asesu fesul achos unigol. Efallai y bydd cyfyngiad amser byrrach ar unrhyw drwyddedau a roddir i dynnu o'r dŵr ychwanegol hwn a ryddheir.
- Cyfyngedig yw'r dŵr sydd ar gael yn nalgylch Melindwr felly mae unrhyw drwyddedau newydd yn debygol o fod yn ddarostyngedig i gyfyngiadau.

- Bydd trwyddedau newydd i dynnu dŵr daear yn ddarostyngedig i'r un amodau â thyniadau dŵr wyneb.

O ran trwyddedau presennol:

- Mae rhagdybiaeth o blaid adnewyddu, yn amodol ar y meini prawf adnewyddu eraill ac ystyriaethau lleol.
- Gall mân newidiadau gael eu gwneud wrth adnewyddu trwyddedau, yn cynnwys ychwanegu amodau effeithlonrwydd dŵr.
- Gallai newidiadau gael eu gwneud i drwyddedau wrth eu hadnewyddu, yn dibynnu ar asesiadau'r CFfD, sy'n dibynnu ar statws ecolegol y dŵr. Caiff hyn ei drafod mor fuan â phosibl gyda deiliad y drwydded.

Anogir unrhyw un sy'n dymuno tynnu dŵr o ddalgylch Rheidol i gysylltu â ni'n fuan wrth gynllunio'u cynigion er mwyn trafod argaeledd dŵr ac unrhyw amodau tebygol y gellid eu rhoi ar unrhyw drwyddedau tynnu dŵr dilynol.

#### 4.2.1.1 Dyfroedd a Addaswyd yn Helaeth

Mae llawer o afon Rheidol yn cael ei dosbarthu fel afon a Addaswyd yn Helaeth o dan y CFfD.

Ar ôl yr asesiad SRhTDD cyntaf ymchwiliasom i drwyddedau Pŵer Hydro-electrig Rheidol o dan y rhaglen Adfer Tynnu Cynaliadwy (ATC) (gweler Adran 4.5). Cwblhawyd yr ymchwiliad a daethom i'r casgliad fod yr amodau ar y trwyddedau cyfredol yn gwarchod y cyflenwad yn ddigonol. Aseswyd y trwyddedau o ran eu heffaith ar yr amgylchedd yn ogystal ag effeithiau lleol, megis gwerth esthetig y rhaeadr ym Mhontarfynach, a'r economi leol.

Ers hynny rydym wedi ailddiffinio afon Rheidol fel afon lle nad oes unrhyw ddŵr ar gael i'w drwyddedu ar draws y rhan fwyaf o'r dalgylch, ond fod rhywfaint o ddŵr ar gael yng ngwaelodion y dalgylch.

#### 4.2.1.2 Nodweddion lleol a allent effeithio ar argaeledd dŵr

Mae cyfraith Ewropeaidd yn amddiffyn dau fath o safle dynodedig yn gadarn iawn, oherwydd eu hamgylchedd arbennig. Sef:

- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), sy'n cyfrannu at fioamrywiaeth trwy gynnal ac adfer cynefinoedd a rhywogaethau;
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), sy'n amddiffyn adar a'u nythod, eu hwyau a'u cynefinoedd.

Mae safleoedd RAMSAR a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) hefyd o bwys amgylcheddol mawr.

Mae nifer o safleoedd dynodedig o fewn De-orllewin Cymru sydd â nodweddion yn gysylltiedig â dŵr. Bydd pob cais am drwydded newydd gerllaw neu o fewn y safleoedd hyn yn cael ei asesu o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Bydd hyn yn golygu asesu'r effaith bosibl ar y rhywogaethau a'r cynefinoedd dynodedig, fesul trwydded unigol ac ar y cyd â thrwyddedau eraill.

Os dengys ein hasesiad y gallai cais newydd effeithio ar ACA/AGA, rhaid inni ganlyn rheolau caeth ynghylch gosod cyfyngiad amser ar y drwydded honno. Sef:

- efallai y gallwn roi'r drwydded, ond â chyfyngiad amser byr. Caniatâ hyn inni gadw golwg ar effaith y tyniad ar yr ACA/AGA, a newid y drwydded os oes rhaid;
- oni allwn bennu na fydd eich cais yn effeithio ar y safle, rhaid inni un ai roi amodau ar y drwydded fel na all effeithio ar y safle, neu wrthod y cais. Os rhoddwn drwydded, efallai y gofynnwn i chi gadw golwg ar ei heffaith;
- os dengys ein hasesiad nad oes effaith ar y safle, rheolwn y cais yn unol ag egwyddorio y ddogfen hon.

Cwblhaodd Asiantaeth yr Amgylchedd ei hadolygiad o'r holl drwyddedau tynnu dŵr presennol yn 2010 i sefydlu'u heffaith bosibl ar y rhywogaethau a'r cynefinoedd dynodedig. Nodasom nifer o drwyddedau lle mae angen newidiadau er mwyn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Rydym yn gweithio gyda deiliaid y trwyddedau i roi'r newidiadau hyn ar waith erbyn 2015.

Dylai datblygwyr mewn dalgylchoedd sydd o fewn neu gerllaw safle dynodedig gysylltu â ni i drafod argaeledd dŵr a'r amodau a allai gael eu rhoi ar drwyddedau.

### 4.2.2 Dŵr daear

Lle bo tyniadau dŵr daear (DD) yn effeithio'n uniongyrchol ar lifau dŵr wyneb, mesurir yr effaith ym MA y dŵr wyneb. Gellir rhoi trwyddedau gydag amodau ynglŷn â'r llifau dŵr wyneb, er enghraifft yr un amodau LlA ag a gâi eu rhoi ar drwyddedau tynnu dŵr wyneb (gweler Tablau 3a a 3b). Byddai hyn yn golygu bod rhaid rhoi'r gorau i dynnu dŵr daear pan fydd y llifau dŵr wyneb yn isel.

Lle bo tyniadau dŵr daear yn debyg o effeithio ar nodweddion dŵr wyneb, neu leihau llif sylfaenol afon, efallai y gosodir amod LlA ar y tyniad. Islaw'r lefel dŵr daear honno, rhaid i dynnwr leihau neu atal ei dynnu.

Mae tyniadau dŵr daear o fewn y rhan fwyaf o'r ardal SRhTDD hon yn cael eu heithrio rhag trwyddedu ar hyn o bryd drwy Offeryn Statudol (Gorchymyn Awdurdod Afonydd De-orllewin Cymru (Eithriadau rhag Rheolaeth) 1965) (gweler Map 5). Mae'r eithriad hwn ar ddŵr daear yn debygol o gael ei ddileu o dan Ddeddf Dŵr 2003.

Byddai ceisiadau am dyniadau dŵr daear o fewn yr ardaloedd trwyddedu yn amodol ar y meini prawf penderfynu arferol. Mae hyn yn cynnwys ymchwiliadau megis profion pwmp i asesu'r cynnyrch ac effeithiau lleol. Rhoddid unrhyw drwyddedau gydag amodau cyfyngu arnynt, lle bo hynny'n briodol. Rhaid cael caniatâd cyn dechrau unrhyw waith drilio a phrofi tyniadau dŵr daear â phwmp. Cysylltwch â ni er mwyn cael rhagor o wybodaeth am argaeledd dŵr daear a'r gofynion trwyddedu.

### 4.2.3 Morydau a'r arfordir

Nid yw morydau'n cael eu cynnwys yn yr asesiad adnoddau SRhTDD gan nad oes modd asesu dylanwadau'r llanw yn yr un ffordd â dyfroedd mewndirol.


Mae llawer o nentydd arfordirol yn ardal y SRhTDD hon heb gael eu hasesu gan ddefnyddio methodoleg asesu adnoddau'r SRhTDD. O'u cymharu â'r afonydd sydd wedi cael eu hasesu gan ddefnyddio'r fethodoleg, cymharol ychydig o adnodd y mae'r nentydd llai hyn yn ei ddarparu. Yn gyffredinol mae iddynt ddalgylch o lai nag 20km$^2$ a diffyg data hydrolegol ac ecolegol fel sail i unrhyw asesiad o'u hadnoddau. Ymgymerir ag asesiad adnoddau SRhTDD ar raddfa dalgylch lle mae yna adnoddau sy'n arwyddocaol ar lefel dalgylch. Nid yw'n arf ar gyfer asesiadau lleol llai o adnoddau llai.

Fodd bynnag, mae'r CFfD wedi gwneud asesiad o'r dalgylchoedd llai hyn a rhoddir syniad o'r dŵr sydd ar gael o'r adnoddau hyn ar Fap 3.

Bydd ceisiadau am dynnu dŵr o adnoddau mewn dalgylchoedd y tu hwnt i'r rhai a aseswyd gan y SRhTDD yn cael eu hasesu fesul achos unigol drwy'r broses penderfynu ar geisiadau.

## Ardal a eithriwyd rhag trwyddedu ar gyfer tyniadau dwr daear

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales




Cilometrau 0 3 6 12 18 24 30

**Eglurhad**

- Ardal a eithriwyd rhag trwyddedu ar gyfer tyniadau dwr daear
- Afonydd Teifi a Gogledd Ceredigion

© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2013.
Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100019741.

Seilir rhai o nodweddion y map hwn ar ddata gofodol digidol tan drwydded y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH).

Dyddiad creu 27 Chwefror 2013

**Map 5 – Ardal a eithriwyd rhag trwyddedu ar gyfer tyniadau dwr daear**

## 4.3 Cyfleoedd ar gyfer masnachu trwyddedau

Dymunwn hwyluso masnachu hawliau dŵr. Masnachu hawliau dŵr yw lle bo rhywun yn gwerthu rhan neu'r cyfan o'u hawl i ddŵr, fel y'i diffinir gan eu trwydded(au) tynnu, i rywun arall, yn barhaol ynteu tros dro. Bydd mwyafrif yr achosion yn golygu newid man tynnu, neu newid defnydd, neu'r ddau beth: a bydd rhaid cael ein cymeradwyaeth ninnau i hynny trwy roi neu newid trwyddedau tynnu.

Wrth drwyddedu masnachu, fel yn achos trwyddedau tynnu newydd, mae angen inni sicrhau nad ydym yn achosi unrhyw ddirywiad yn statws dŵr CFfD, o fewn y dŵr / dyfroedd lle bydd y masnachu, neu yn nyfroedd ymhellach i gyfeiriad y llif. Rhydd y tabl isod arweiniad ynghylch a ddichon masnachu yn nyfroedd lliw adnodd argaeledd dŵr SRhTDD neilltuol, fel y dangosir ar Fap 3.

| Liw argaeledd adnodd dŵr SRhTDD | Ein hagwedd ni at fasnachu |
|---|---|
| Patrymedd hydrolegol sylweddol | Bydd cyfleoedd masnachu hawliau dŵr yn gyfyngedig. |
| Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | Caniateir masnachu tynnu gwirioneddol, diweddar a thynnu trwyddedig, ond ni ddisgwylir llawer o alw am fasnachu o fewn y dŵr neilltuol hwn, gan fod dŵr ar gael ar gyfer tyniadau newydd. |
| Dŵr cyfyngedig ar gael ar gyfer trwyddedu | Efallai y bydd cyfleoedd i ddeiliaid trwyddedau i fasnachu hyd at gyfanswm llawn eu trwydded, ond efallai y bydd faint o ddŵr sydd ar gael i'w fasnachu yn gyfyngedig unwaith y mae'r tynnu gwirioneddol yn cyrraedd yr eithaf cynaliadwy. |
| Nid oes dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu | Ni fasnachwn ond tynnu gwirioneddol, diweddar, ond ni chaniateir unrhyw gynnydd tynnu gwirioneddol diweddar yn y dŵr neilltuol hwnnw. Efallai yr adenillir tynnu trwyddedig ar gyfer yr amgylchedd. |
| DAS (a/neu ddyfroedd gollyngol helaeth) | Bydd cyfleoedd ar gyfer masnachu'n dibynnu ar gytundebau gweithredu lleol a rheolaeth leol. |

Er mwyn canfod rhagor am fasnachu trwyddedau, ewch i wefan gov.uk.

## 4.4 Awdurdodiadau Newydd

Daeth Deddf Dŵr 2003 â phob tynnu dŵr sylweddol tan reolaeth trwyddedu. O ganlyniad, daw dyfrio cnydau, dad-ddyfrio mwyngloddiau, chwareli, gweithfeydd peirianneg a safleoedd adeiladu, tyniadau perthynol i Ardaloedd Draeniad Mewnol, tyniadau mordwyol a thyniadau ar gyfer porthladdoedd ac awdurdodau harbwr, ac eithriadau lleol eraill, o dan y drefn drwyddedu.

O ganlyniad, bydd modd inni reoli adnoddau dŵr yn fwy effeithiol trwy sicrhau cynnal, mewn modd cynaliadwy, pob gweithgaredd sylweddol sy'n dylanwadu ar argaeledd dŵr, a'i effaith ar yr amgylchedd.

Mae'r Llywodraeth eto'n datblygu eu polisïau ynghylch sut mae datrys rhai o'r materion a godwyd yn ystod y broses ymgynghori. Bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi eu cynlluniau cyn y gweithredir rheoliadau newydd, a disgwyliant wneud hyn o leiaf 3 mis cyn dechrau, fel y gallwn yrru cyfarwyddyd at y rhai a effeithir gan y newidiadau.

Lle bo gennym fanylion y tyniadau sy'n eithriedig ar hyn o bryd, rydym wedi eu cynnwys yn ein hasesiadau er mwyn ystyried sut yr effeithiant ar y dalgylch.

Mae cyfran fawr o'r ardal SRhTDD hon yn cael ei heithrio rhag trwyddedu dŵr daear ar hyn o bryd, fel y dangosir ar Fap 5, gan Offeryn Statudol (Gorchymyn Awdurdod Afonydd De-orllewin Cymru (Eithriadau rhag Rheolaeth) 1965). Yr unig leoliadau dŵr daear lle mae trwyddedu'n ofynnol yw rhai o'r afonydd graean ochr yn ochr â phrif afonydd Teifi, Aeron, Ystwyth a Rheidol. Mae'r eithriad hwn ar ddŵr daear yn debygol o gael ei ddileu o dan Ddeddf Dŵr 2003.

## 4.5 Adfer Tynnu Cynaliadwy

Lle mae tynnu dŵr yn achosi, neu y gallai achosi, niwed amgylcheddol, efallai y bydd angen inni newid neu hyd yn oed ddirymu trwyddedau tynnu presennol er mwyn sicrhau cyfundrefn dynnu gynaliadwy. Rydym yn ymchwilio i drwyddedau tynnu dŵr sy'n achosi problemau o'r fath drwy'r rhaglen Adfer Tynnu Cynaliadwy (ATC). Wedyn gallwn weithio gyda deiliaid y drwydded i ddatblygu opsiynau o ran gwella cynaliadwyedd. Mae gwybodaeth am sut yr ymdrinnir â thrwyddedau yn y rhaglen ATC i'w gweld yng nghanllaw Asiantaeth yr Amgylchedd, Newid Trwyddedau Tynnu a Chronni Dŵr, sydd ar gael ar wefan gov.uk.

Mae'r rhaglen ATC wedi darparu fframwaith inni ar gyfer cynnal adolygiad o ganiatadau o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac ymchwiliadau i adnoddau dŵr o dan CFfD. Hefyd, roeddem wedi nodi nifer o gynlluniau ATC drwy'r cylch cyntaf o SRhTDD.

# Geirfa termau

| | |
|---|---|
| Croniad | Adeilad neu waith sy'n atal neu'n llesteirio llif dŵr mewndirol, megis argae, cronfa, neu waith adeiledig arall. |
| Dalgylch | Yr ardal o ba un y bydd glawiad a dŵr daear yn cronni ac yn cyfrannu at lif afon benodol. |
| Dŵr Daear | Dŵr a gynhwysir yng nghreigiau tanddaearol. |
| Dŵr Unigol | Unedau un ai dŵr wyneb ynteu dŵr daear ym mha rai y cwblheir asesiadau ar gyfer y CFfD. |
| Dŵr Wyneb | Enw cyffredinol ar bob nodwedd dŵr megis afonydd, nentydd, tarddellau, pyllau a llynnoedd. |
| Gollyngiad | Gollwng sylweddau (sef dŵr, carthion ac ati) i ddyfroedd wyneb. |
| Hawl Amddiffynedig | Hawl tynnu, sydd gan rywun yn rhinwedd yr eithriadau tyniadau bychain a ddiffinir yn Neddf Dŵr 2003, neu yn rhinwedd bod â thrwydded dynnu. Yr hawl a amddiffynnir yw'r swm y gellir ei dynnu hyd at yr hyn a ganiateir gan yr eithriad, neu amodau'r drwydded. Yr eithriadau tyniadau bychain a ddiffinir gan Ddeddf Dŵr 2003 yw rhai at ddibenion cartref ac amaeth (ac eithrio dyfrio â chwistrell) nad ydynt ragor na 20 $m^3$/d. |
| Lefel Annibynnol | Lefel llif afon neu lefel (dŵr daear) treidd-dwll, islaw pa un y mae gofyn i dynnwr leihau neu atal y tynnu. |
| Llif Annibynnol | Amod a osodir ar drwydded dynnu a ddatgan y bydd gofyn i'r tynnwr leihau neu atal y tynnu os yw llif yr afon yn disgyn islaw'r lefel a bennir yn y drwydded. |
| Mynegydd Llif Amgylcheddol | Mynegydd llif er mwyn atal dirywiad amgylcheddol afonydd, a osodwyd yn unol â safonau newydd y DU, a osodwyd gan UKTAG. |
| Tynnu Defnyddiadol | Tyniad lle ni ddychwelir cyfran sylweddol o'r dŵr, nac yn uniongyrchol nac fel arall, i'r ffynhonnell gyflenwi wedi ei ddefnyddio. Defnyddio dŵr at ddyfrio cnydau, e.e. |
| Trwydded Drosglwyddo | Trwydded tynnu dŵr o un ffynhonnell gyflenwi am gyfnod o 28 diwrnod neu ragor at ddiben:<br>1. Trosglwyddo dŵr i ffynhonnell gyflenwi arall; neu,<br>2. Drosglwyddo dŵr i'r un ffynhonnell gyflenwi, ond ym man arall, wrth gyflawni gweithgareddau dad-ddyfrio cysylltiedig â mwyngloddio, cloddio, peirianneg, adeiladu neu weithrediadau eraill (boed ar wyneb y ddaear neu oddi tani);<br>heb ddefnydd cyfamserol. |
| Trwydded Dynnu | Yr awdurdodiad a roddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (neu Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr) er mwyn caniatáu tynnu dŵr. |
| Trwydded Lawn | Trwydded tynnu dŵr o ffynhonnell gyflenwi tros gyfnod o 28 diwrnod neu ragor. |
| Tyniad | Tynnu dŵr o ffynhonnell gyflenwi (dŵr wyneb neu ddaear). |
| Uned Man Asesu | Man o ba un yr asesir y llif o ddalgylch uwchlaw iddo. |

# Rhestr byrfoddau

| | |
|---|---|
| ACA | Ardaloedd Cadwraeth Arbennig |
| ADL | Amgylchedd sy'n Dibynnu ar Lefel |
| AGA | Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig |
| ATC | Adfer Tynnu Cynaliadwy |
| BST | Bandiau Sensitifrwydd Tynnu |
| CFfD | Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr |
| CRhA | Cynlluniau Rheoli Asedau |
| CRhBA | Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd |
| CWDdAD | Cyfundrefn Wybodaeth Ddaearyddol Adnoddau Dŵr |
| DAS | Dŵr a Addaswyd yn Sylweddol |
| DD | Dŵr Daear |
| DDC | Dyddiad Darfod Cyffredin |
| Defra | Adran yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Materion Gwledig (Department of Environment Fisheries and Rural Affairs) |
| DG | Dŵr Gwneud |
| DU | Dŵr Unigol |
| DW | Dŵr Wyneb |
| GD | Gwirioneddol Diweddar (sefyllfa) |
| LA | Lefel Annibynnol |
| LlA | Llif Annibynnol |
| MA | Man Asesu |
| Ml/d | Megalitrau'r diwrnod |
| MLlE | Mynegydd Llif Ecolegol |
| mUSO | Metres uwchlaw seilnod ordnans |
| PED | Potensial Ecolegol Da |
| Q95 | Llif y mae llif yr afon yn fwy nag ef am 95% o'r amser, ar gyfartaledd. |
| SED | Statws Ecolegol Da |
| SEU | Statws Ecolegol Uchel |
| SoDdGA | Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| SRhTDD | Strategaethau Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch |
| TC | Trwyddedig Gyflawn (sefyllfa) |
| UKTAG | Grŵp Cynghori Technegol y Deyrnas Unedig |